**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2024-25.**

**WGDB_24-25 24: Ymateb gan: Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Response from: Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

---

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

**Ffôn:**
01267 610400

**E-bost:**
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cyfeiriad e-bost: SeneddCyllid@Senedd.Cymru

30 Tachwedd 2023

Annwyl Bwyllgor,

**Cyf: Galwad am wybodaeth – cynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

Diolch yn fawr iawn am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ryn ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

Bydd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o'r Gyllideb sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Coleg.

## Addysg uwch

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 ac erbyn hyn mae darpariaeth helaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog wedi ei ddatblygu ar draws pob prif bwnc a ddarperir ym mhrifysgolion Cymru. Bellach mae dros 7,200 o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n 28% o'r holl siaradwyr Cymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru.

Mae Cynllun Academaidd diweddaraf y Coleg yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf ac un o'r prif amcanion ydy denu cynulleidfaoedd newydd i addysg uwch Cymraeg a dwyieithog gan gynnwys y rheiny sy'n llai hyderus yn defnyddio'u Cymraeg. Mae 20,000 o siaradwyr Cymraeg yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru ac mae'r Coleg wrthi'n datblygu cynlluniau i ddenu rhagor ohonynt i astudio rhan o'u cwrs yn Gymraeg. Mae'n gwbl allweddol bod y Coleg yn derbyn y cyllid a ragwelwyd i gefnogi'r gwaith pwysig hwn yn ogystal â diogelu'r ddarpariaeth sydd eisoes wedi eu sefydlu.

## Addysg bellach a phrentisiaethau

Yn 2018 derbyniodd y Coleg gyfrifoldeb am addysg bellach a phrentisiaethau ac rydym wrthi'n gweithredu cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r ddarpariaeth i *bob* dysgwr yn y sectorau hyn, beth bynnag eu sgiliau Cymraeg. Mae cynnydd amlwg wedi digwydd yn y gweithgareddau dysgu gydag elfen o Gymraeg yn y sector ôl-16 ers i'r Coleg dderbyn cyfrifoldeb dros fuddsoddi mewn staff, darpariaeth ac adnoddau newydd fel a welir yn y tabl islaw:

Gweithgareddau dysgu gydag o leiaf elfen Gymraeg:

| Blwyddyn | Addysg bellach | Dysgu yn y gweithle |
|---|---|---|
| **2017/18** | 7.3% | 10.3% |
| **2018/19** | 8.7% | 11.9% |
| **2019/20** | 8.8% | 13.0% |
| **2020/21** | 14.7% | 20.8% |
| **2021/22** | 18.2% | 25.3% |

Ffynhonnell data: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Adroddiad blynyddol 2022/23 (llyw.cymru tud.24)

Mae'n amlwg o'r data bod momentwm wedi dechrau datblygu bellach tuag at gynyddu darpariaeth Cymraeg a dwyieithog, a bod y colegau addysg bellach a'r darparwyr prentisiaethau wedi ymateb yn dda hyd yn hyn i'r her i wreiddio'r Gymraeg ar draws y sector. Er mwyn sicrhau bod y momentwm yn parhau a bod y twf yn digwydd mewn modd sy'n gynaliadwy, mae'n allweddol bod y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau ac yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod.

## Cyllido addysg drydyddol Cymraeg a dwyieithog

**Cyllido addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog**

2% o gyllideb addysg bellach Llywodraeth Cymru sy'n cael ei wario ar ddarpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, tra bod siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 24% o'r dysgwyr. Mae Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg a dwyieithog y Coleg Cymraeg a'r Llywodraeth yn targedu *pawb* yn y sector, beth bynnag eu sgiliau Cymraeg.

**Cyllido addysg uwch cyfrwng Cymraeg**

3% o gyllideb addysg uwch Llywodraeth Cymru sy'n cael ei wario ar ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (nid yw hyn yn cynnwys cyllideb Cynhaliaeth i Fyfyrwyr) tra bod siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 14% o'r myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru.

Mae trafodaethau wedi ac wrthi'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru a'r gwrthbleidiau ynglŷn â'r angen i fuddsoddi yn natblygiad y Gymraeg yn y sector addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch er mwyn gwireddu amcanion Strategaeth Cymraeg 2050. Mae sicrhau cyfleoedd i bobl barhau i feithrin a datblygu eu sgiliau Cymraeg wedi iddynt adael yr ysgol, a'u paratoi ar gyfer gweithio mewn gweithleoedd dwyieithog, yn gwbl allweddol os am wireddu'r nod o fwrw'r miliwn a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith yn ein cymunedau.

Derbyniwyd cynnydd pwrpasol i gyllideb y Coleg Cymraeg yn ystod 2022-23 a 2023-24 gan y Llywodraeth, trwy'r Cytundeb Cydweithio, yn benodol ar gyfer cynyddu staffio a darpariaeth yn y sector ôl-16, ac i weithredu dau brosiect yn y maes addysg gychwynnol athrawon – agenda sy'n bwysig iawn o ystyried y prinder yn y nifer sy'n hyfforddi bob blwyddyn i ddysgu yn y sector Gymraeg a Saesneg.

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniwyd rhagolygon cyllidebol ar gyfer cynnydd ychwanegol yn 2024-25 a cadarnhawyd hyn mewn llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant. Mae'r ymrwymiad hefyd yn gyson gydag ymrwymiadau'r Llywodraeth yn ei Raglen Lywodraeth ar gyfer y tymor hwn, a hefyd, gyda chynnwys y Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru:

1. **Rhaglen Lywodraethu 2021-2026:**

"Ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chynyddu'r cyllid ar eu cyfer."

2. **Cytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru:**

"Ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chynyddu'r cyllid ar eu cyfer."

3. **Rhaglen Waith Cymraeg 2050, 2021-2026:**

"Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ill dau rol hanfodol i'w chwarae yn yr ymdrech i gaffael a dysgu'r Gymraeg.

15. Ehangu rol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a darparu llwybr dysgu iaith o'r ysgol i addysg ol-orfodol, mewn cydweithrediad a'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol.

16. Ehangu rol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a datblygu cynigion ar gyfer y Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg i'w roi ar sail statudol.

**17. Rhoi cyllid ychwanegol dros 5 mlynedd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch.**

18. Datblygu, ar y cyd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, dargedau i gynyddu dilyniant ieithyddol rhwng addysg statudol ac addysg bellach a phrentisiaethau.

19. Cynyddu dysgu, asesu a dilyniant drwy gyfrwng y Gymraeg drwy sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, drwy'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) arfaethedig, gyda dyletswyddau strategol yn gysylltiedig a hyrwyddo addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg."

## Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Gyda sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, a'r dyletswyddau statudol fydd ganddo dros hyrwyddo ymchwil a darpariaeth Cymraeg, rhaid sicrhau bod y momentwm nid yn unig yn parhau ond bod y disgwyliadau ar y sector drydyddol o ran y Gymraeg a dwyieithrwydd yn cynyddu.

Dynodwyd y Coleg gan Weinidogion Cymru i ddarparu cyngor i’r Comisiwn o 1 Ebrill 2024 ac mae hyn yn gam allweddol ymlaen. Mae trafodaethau cychwynnol rhwng swyddogion y Comisiwn a swyddogion y Coleg wedi bod yn gadarnhaol ac edrychwn ymlaen at ffurfioli’r berthynas rhwng y ddau gorff. Bydd y dyletswyddau sydd gan y Comisiwn yn arwain at gynyddu’r disgwyliadau ar y sector gyfan i wneud cynnydd ystyrlon yn natblygiad y Gymraeg a thra bod hynny i’w groesawu, mae’n rhaid sicrhau bod y datblygiadau yn cael eu cyllido’n ddigonol.

**Y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig**

Datblygiad polisi allweddol arall sy’n effeithio’r sectorau trydyddol oedd cyhoeddi’r Papur Gwyn ar gyfer Bil Addysg Gymraeg. Mae’r Coleg wedi cefnogi prif amcanion y Papur Gwyn ac edrychwn ymlaen i chwarae rhan lawn mewn trafodaethau i sefydlu strwythurau a fframwaith ddeddfwriaethol gadarn i gefnogi’r cynnydd y mae’r Llywodraeth yn dymuno ei weld. Yn y sefyllfa economaidd bresennol mae’n fwy pwysig nag erioed bod pob opsiwn ar gyfer strwythurau cefnogi yn cael eu hystyried yn llawn, gan gynnwys yr opsiwn i rannu neu uno adnoddau a gwasanaethau ble maent eisoes yn bodoli. Fel a nodwyd yn ein hymateb i’r Papur Gwyn, mae’r Coleg yn agored iawn i drafod yr holl opsiynau hyn gyda’r Llywodraeth ac eraill.

Edrychwn ymlaen at barhau gyda’n trafodaethau gyda’r Llywodraeth ac aelodau’r pwyllgorau perthnasol yn Senedd Cymru i sicrhau bod yr agenda allweddol hon yn derbyn blaenoriaeth haeddianol yng Nghyllideb Ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

Am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu’r Coleg ar g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,



**Dr Ioan Matthews**
**Prif Weithredwr**

cc. Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (SeneddDiwylliant@Senedd.Cymru) a’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (SeneddPlant@Senedd.Cymru)